



# **Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Ile rhoddwyd rhybudd)**

Practis Deintyddol Bamboo

Dyddiad yr arolygiad: 6 Gorffennaf  
2017

Dyddiad cyhoeddi: 9 Hydref 2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Y Rheolwr Cyfathrebu**  
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**  
**Llywodraeth Cymru**  
**Parc Busnes Rhyd-y-car**  
**Merthyr Tudful**  
**CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn: 0300 062 8163**  
**E-bost: [hiw@wales.gsi.gov.uk](mailto:hiw@wales.gsi.gov.uk)**  
**Ffacs: 0300 062 8387**  
**Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)**

## Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom .....	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad .....	6
3.	Yr hyn a ganfuom.....	7
	Ansawdd profiad y claf .....	8
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol .....	12
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	17
4.	Beth sydd nesaf? .....	19
5.	Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol.....	20
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad .	21
	Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith .....	22
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	23

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r corff annibynnol sy'n arolygu ac yn rheoleiddio gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

## Ein gwerthoedd

- Pwyslais ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud
- Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest
- Annibynnol: rydym yn gweithredu a gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn
- Cydweithredol: rydym yn datblygu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac allanol
- Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, effeithlon a chyfrannol.

## Ein blaenoriaethau

Ein nod trwy ein gwaith yw:

**Darparu sicrwydd:**

Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal.

**Hybu gwelliant:**

Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.

**Dylanwadu ar bolisi a safonau:**

Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Bamboo, yn 28 Heol Gorllewinol y Bont-faen, Caerdydd, CF5 5BS, ar 6 Gorffennaf 2017.

Bu AGIC yn archwilio sut roedd y practis yn cydymffurfio â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011, a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Gellir gweld manylion pellach ynglŷn â'n dull o gynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth bod Practis Deintyddol Bamboo yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'w gleifion mewn amgylchedd dymunol gyda staff sy'n gyfeillgar, proffesiynol ac ymrwymedig. Roedd y cleifion yn fodlon iawn â'r gwasanaeth a oedd yn cael ei ddarparu.

Canfuom fod y practis yn gwneud y canlynol yn dda:

- Rhoddid digon o wybodaeth i gleifion wneud penderfyniad gwybodus ynglŷn â'u triniaeth, a gwelsom dystiolaeth bod cleifion yn fodlon ar y driniaeth a'r gwasanaeth a dderbyniwyd.
- Gwelsom dystiolaeth bod y gwasanaeth hwn yn cael ei reoli'n dda iawn, gyda systemau effeithiol i gefnogi rheolaeth ac arweinyddiaeth gyffredinol y practis.
- Roedd y tîm staff i'w gweld yn hapus iawn yn eu swyddi, roeddent yn gymwys wrth gyflawni eu cyfrifoldebau, ac roedd ganddynt ymrwymiad cadarn i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel.
- Roedd digon o gyfleusterau clinigol ar gael, ac roeddent i'w gweld yn lân ac wedi'u trefnu'n dda.
- Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer defnyddio pelydrau-X yn ddiogel.
- Roedd offerynnau deintyddol yn cael eu glanhau a'u sterileiddio'n briodol. Roedd peiriant golchi dadheintio ar gael yn yr ystafell ddadheintio.
- Mae systemau ar waith ar gyfer llywodraethu a monitro ansawdd y gwasanaeth mewn perthynas â gofynion y rheoliadau.

Gwnaethom argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Mae angen i fwy o wybodaeth hybu iechyd fod ar gael i gleifion yn y manau aros.

### 3. Yr hyn a ganfuom

#### **Cefndir y gwasanaeth**

Mae Practis Deintyddol Bamboo yn darparu gwasanaethau deintyddol preifat yn unig.

Mae'r practis yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys tri deintydd, un hylenydd deintyddol, un therapydd, tair nyrs ddeintyddol, dwy nyrs ddeintyddol o dan hyfforddiant a phedwar aelod o staff derbynfa. Roedd hefyd dau reolwr practis yno ar ddiwrnod yr arolygiad.

Darperir amrediad o wasanaethau deintyddol preifat.

## Ansawdd profiad y claf

*Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Ar y cyfan, canfuom fod Practis Deintyddol Bamboo yn gweithio'n galed i ddarparu profiad o ansawdd uchel i'w gleifion. Mae'r tîm deintyddol yn gweithio'n dda gyda'i gilydd ac yn gwybod anghenion eu cleifion yn dda iawn. Cadarnhaodd yr adborth a dderbyniwyd gennym fod y cleifion yn hapus iawn gyda'r gwasanaeth.

Cyn yr arolygiad, estynnwyd gwahoddiad i'r practis ddisbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn cael eu sylwadau ar y gwasanaethau deintyddol a oedd yn cael eu darparu. Cwblhawyd cyfanswm o 16 o holiaduron. Roedd y rhan fwyaf o'r holiaduron wedi'u cwblhau gan gleifion a oedd wedi derbyn triniaeth yn y practis ers llai na blwyddyn. Ar y cyfan, roedd yr adborth gan gleifion yn gadarnhaol. Roedd yr holiaduron yn gofyn i'r cleifion ynghylch sut y gallai'r practis deintyddol wella'r gwasanaeth yr oedd yn ei ddarparu. Derbyniwyd dau o sylwadau fel a ganlyn:

*"Rwyf wedi bod yn dod i'r practis hwn ers 24 o flynyddoedd. Roeddwn yn poeni pan adawodd yr hen ddeintydd ond nid oedd angen gan fod y deintyddion newydd yn hynod o dda. Mae pob aelod o staff yma'n wych ac mae llawer wedi bod yma ers amser hir."*

*"Maen nhw'n dda iawn nawr."*

## Cadw'n iach

Dywedodd y rhan fwyaf o gleifion a gwblhaodd holiadur gan AGIC fod y tîm deintyddol wedi siarad â nhw ynghylch sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach.

Mae gwybodaeth hybu iechyd yn cynorthwyo cleifion i fod yn gyfrifol am eu hiechyd a'u llesiant eu hunain. Canfuom fod angen mwy o wybodaeth hybu iechyd deintyddol penodol ar gael i gleifion yn y manau aros. Roedd hyn oherwydd nad oedd llawer o ddeunyddiau hybu iechyd ar gael. Bydd hyn yn golygu bod gan gleifion fynediad at wybodaeth i'w cefnogi i ofalu am hylendid ceg eu hunain.



## Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i fwy o wybodaeth hybu iechyd fod ar gael i gleifion yn y manau aros.

### **Gofal ag urddas**

Roedd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur yn teimlo eu bod wedi cael eu trin â pharch wrth ymweld â'r practis, ac roeddent yn cael croeso cynnes gan dîm y practis. Gwelsom ddull cyfeillgar a phroffesiynol yr oedd y staff yn ei ddefnyddio tuag at y cleifion.

Roedd lle ar gael i staff gael sgysiau â phobl mewn man preifat i ffwrdd o gleifion eraill, pe bai angen, er mwyn cynnal cyfrinachedd cleifion. Gwelsom fod y drysau i'r ystafelloedd triniaeth ddeintyddol (lle'r oedd cleifion yn derbyn gofal ar ddiwrnod ein harolygiad) wedi'u cadw ar gau i gynnal preifatrwydd ac urddas.

### **Gwybodaeth cleifion**

Cadarnhaodd bron pob claf a gwblhaodd holiadur fod cost unrhyw driniaeth bob amser yn cael ei hesbonio'n glir cyn iddynt dderbyn eu triniaeth. Nododd cleifion hefyd eu bod yn deall sut roedd cost eu triniaeth yn cael ei chyfrifo.

Roedd rhestr brisiau ar gyfer cleifion preifat hefyd yn cael ei harddangos yn amlwg wrth gyrraedd er gwybodaeth i gleifion. Roedd gwybodaeth allweddol ar gael yn Gymraeg yn y practis, e.e. y gweithdrefnau cwyno. Gwelsom fod manylion ynghylch y deintyddion sy'n ymarfer ac oriau agor y ddeintyddfa'n cael eu harddangos yn allanol.

### **Cyfathrebu'n effeithiol**

Roedd nifer fechan o'r bobl a gwblhaodd holiadur yn ystyried eu hunain yn siaradwyr Cymraeg, a dywedodd y cleifion hyn wrthym fod modd iddynt siarad gydag aelod o staff yn Gymraeg yn y practis o bryd i'w gilydd. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion nad oeddent yn siarad Cymraeg a gwblhaodd holiadur eu bod yn gallu siarad â staff yn eu hiaith ddewisol bob amser.

### **Gofal amserol**

Ceisiodd y practis sicrhau bod gofal deintyddol yn cael ei ddarparu'n brydlon bob amser. Fodd bynnag, dywedodd bron traean o'r cleifion a gwblhaodd holiadur na fyddant yn gwybod sut i gael mynediad at wasanaethau deintyddol

y tu allan i oriau pe bai problem ddeintyddol frys ganddynt. Gwelsom, er hyn, fod y rhif ffôn cyswllt mewn argyfwng yn cael ei arddangos yn allanol ar y wefan.

## **Gofal unigol**

### **Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth**

Gwnaeth yr holl gleifion heblaw un a wnaeth gwblhau holiadur gadarnhau bod y deintydd yn holi am eu hanes meddygol cyn ymgymryd ag unrhyw driniaeth. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym hefyd eu bod yn teimlo eu bod yn rhan o unrhyw benderfyniadau a wneir ynghylch eu triniaeth gymaint ag y maen nhw'n dymuno, a bod y tîm deintyddol wedi eu helpu i ddeall yr holl opsiynau oedd ar gael pan oedd angen triniaeth arnynt.

### **Hawliau pobl**

Roedd polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth ar waith yn y practis. Roedd mynediad i'r ystafell driniaeth ar y llawr gwaelod i gleifion ag anawsterau symud a/neu ddefnyddwyr cadair olwyn. Yn ogystal, roedd rheolwr y practis wedi cynnal archwiliad o'r mynediad ar gyfer pobl anabl, ac roedd y mynediad wedi'i wella o ganlyniad i adborth gan gleifion. Roedd toiled anabl deuryw ar y llawr gwaelod ac un toiled arall ar y llawr cyntaf gyda biniau glanweithdra ar gael ynddynt.

### **Gwrando a dysgu o adborth**

Dywedodd dros draean o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym nad oeddent yn gwybod sut i wneud cwyn neu fynegi pryder ynghylch y gwasanaethau a dderbyniwyd yn y practis deintyddol. Cadarnhaodd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur, fodd bynnag, eu bod wedi cael eu holi am eu safbwyntiau ynghylch y practis deintyddol – er enghraifft, drwy holiaduron i gleifion.

Gwelsom fod y weithdrefn gwyno'n cael ei harddangos yn amlwg yn y manau aros. Roedd y weithdrefn gwyno'n cydymffurfio â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008.<sup>1</sup> Yn dilyn trafodaeth ynghylch cael mynediad haws at y

---

<sup>1</sup> [https://www.dentalprotection.org/uk/help-advice/regulations/wales/private-dentistry-\(wales\)-regulations-2008](https://www.dentalprotection.org/uk/help-advice/regulations/wales/private-dentistry-(wales)-regulations-2008)

weithdrefn gwyno ar wefan y practis, gwnaeth rheolwr y practis drefnu (ar ddiwrnod yr arolygiad) i'r ymgynghorydd TG wneud hyn yn fwy amlwg a hygyrch ar hafan y wefan.

## Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

*Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Ar y cyfan, canfuom dystiolaeth bod y practis yn darparu gofal deintyddol diogel ac effeithiol i gleifion. Roedd y cyfleusterau clinigol wedi cael eu cyfarparu'n dda ac roeddent i'w gweld yn lân ac yn daclus. Roeddem yn fodlon ar y trefniadau oedd ar waith er mwyn amddiffyn cleifion a staff rhag heintiau ataliadwy sy'n gysylltiedig â gofal iechyd.

Canfuom fod y practis wedi cymryd camau i warchod iechyd, diogelwch a llesiant y staff a'r cleifion.

Roedd cyfarpar dadebru a chyffuriau brys ar gael yn y practis, ac roedd systemau ar waith i helpu i sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio.

Roedd trefniadau ar waith i sicrhau bod offer pelydr-X yn cael eu defnyddio mewn modd diogel. Roedd y practis hefyd wedi cymryd camau i hyrwyddo ac i ddiogelu lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n dod yn agored i niwed neu sydd mewn perygl.

Mae angen i'r practis adolygu'r asesiad risg tân a chymryd camau gweithredu i'w gywiro lle bo angen. Mae hefyd angen i'r practis sicrhau bod cofnodion llawn yn cael eu cadw o ran damweiniau.

### **Gofal diogel**

#### **Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch**

Canfuom fod y practis wedi cymryd camau i helpu i warchod iechyd, diogelwch a llesiant y staff a'r cleifion. Roedd y practis wedi ei gynnal yn dda yn ôl pob golwg ac roedd yr ystafelloedd triniaeth yn lân, yn daclus ac yn drefnus. Ni chodwyd unrhyw bryderon gan gleifion ynghylch glendid y practis deintyddol; roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur o'r farn bod y practis deintyddol yn lân iawn. Gwelsom fod profion dyfeisiau cludadwy wedi cael eu cynnal i

helpu i sicrhau bod dyfeisiau trydanol bach yn cael eu defnyddio'n ddiogel yn y practis. Roedd tystiolaeth o dystysgrif gwifrau trydanol ar gyfer yr adeilad hefyd ar gael.

Gwnaethom edrych ar yr asesiadau risg ar gyfer y Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) a gweld bod taflenni data diogelwch wedi'u cadw ar gyfer pob sylwedd yn ogystal ag asesiadau risg priodol. Roedd sylweddau peryglus i iechyd yn cael eu storio'n ddiogel. Roedd dogfennau contract ar waith ar gyfer cael gwared ar wastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus. Roedd cynwysyddion offer miniog yn cael eu storio'n ddiogel. Roedd polisi iechyd a diogelwch ar waith.

Roedd diffoddwyr tân ar gael ac roeddent wedi'u gwasanaethu o fewn y 12 mis diwethaf. Roedd contract cynnal a chadw ar waith ar gyfer offer diogelwch tân, ac roedd arwyddion tân ac asesiadau risg yn amlwg. Fodd bynnag, mae angen i'r practis adolygu'r asesiad risg tân a chymryd camau gweithredu, oherwydd fe wnaethom ganfod nad oedd un allanfa dân ar y llawr gwaelod, a oedd yn arwain at y maes parcio, yn cydymffurfio. Mae hyn oherwydd yr oedd wedi'i chloi ac felly ni fyddai modd gadael ar frys pe bai tân. Yn ogystal, roedd yr allanfa dân yn arwain at y maes parcio, a chanfuom y gallai cerbyd rwystro'r allanfa, gan nad oedd arwydd y tu allan i'r drws yn nodi bod angen cadw'r allanfa dân yn glir.

#### Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid adolygu'r asesiad risg tân er mwyn mynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn yr adroddiad hwn.

#### Atal a rheoli heintiau

Roeddem yn fodlon ar y trefniadau ar gyfer amddiffyn staff a chleifion rhag heintiau ataliadwy sy'n gysylltiedig â gofal iechyd yn y practis deintyddol. Mae hyn oherwydd inni weld tystiolaeth bod mesurau atal a rheoli heintiau ar waith. Roedd enghreifftiau yn cynnwys y canlynol:

- Ystafell bwrpasol ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol
- Roedd peiriant golchi dadheintio ar gael
- Roedd cyfarpar diogelu personol megis menig tafladwy, ffedogau a chyfarpar diogelu llygaid ar gael ac yn cael ei ddefnyddio
- Sinc benodol i olchi dwylo

- Roedd yr offer a oedd yn cael eu defnyddio ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol mewn cyflwr da, yn ôl pob golwg
- Roedd llyfrau cofnodion ar gyfer gwirio offer sterileiddio wedi cael eu cadw, gan gynnwys profion dyddiol
- Roedd offerynnau'n cael eu storio a'u cludo mewn modd priodol, ac roedd dyddiad ar eu pecynnau i ddangos erbyn pryd roedd yn rhaid eu defnyddio

Roedd polisi dadheintio ar waith a gwelsom fod staff yn llofnodi ac yn dyddio i ddangos eu bod wedi ystyried y prif bolisiau. Canfuom fod statws gwirio brechiadau imiwneiddio ar gyfer aelodau staff yn gyfredol.

Roedd y practis wedi cynnal archwiliad rheoli heintiau, yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05,<sup>2</sup> ac roedd y staff perthnasol wedi cwblhau hyfforddiant diweddar ym maes dadheintio bob pum mlynedd.

### Rheoli meddyginiaethau

Roedd cyfarpar dadebru a chyffuriau brys ar gael yn y practis, ac roedd systemau ar waith i helpu i sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio pe bai argyfwng claf (llewyg/cwyp). Roedd polisi dadebru ar waith a oedd yn cynnwys swyddogaethau a chyfrifoldebau'r staff.

Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod staff wedi derbyn hyfforddiant i ymdrin ag argyfyngau meddygol, a sut i gyflawni dadebru cardio-pwlmonaidd.

Roedd y practis wedi penodi swyddogion cymorth cyntaf yn y tîm a oedd wedi cwblhau'r hyfforddiant perthnasol ac roedd pecyn cymorth cyntaf ar gael. Roedd llyfr damweiniau priodol ar waith ac roedd taflenni damweiniau a gwblhawyd yn cael eu ffeilio'n ddiogel i gynnal safonau diogelu data. Fodd bynnag, canfuom nad oedd manylion cyflawn ar gyfer dau gofnod yn y llyfr damweiniau i nodi'r ymateb llawn a gymerwyd yn dilyn anafiadau pigo gan nodwyddau ymysg y staff. Rhaid i'r practis felly sicrhau bod cofnodion o ddamweiniau a champau gweithredu dilynol yn cael eu cofnodi'n llawn yn y llyfr damweiniau.

---

<sup>2</sup> <http://www.wales.nhs.uk/sites3/docopen.cfm?orgid=254&id=232444>

Roedd cyffuriau a ddefnyddir mewn argyfwng wedi eu trefnu'n dda, gyda siartiau llif cynnal bywyd cyfatebol i'w defnyddio mewn argyfyngau penodol. Roedd cofnod o'r gwiriadau rheolaidd o gyffuriau a ddefnyddir mewn argyfwng yn cael ei gynnal.

#### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod cofnodion o ddamweiniau a chamau gweithredu dilynol yn cael eu cofnodi'n llawn yn y llyfr damweiniau.

#### Diogelu plant ac oedolion mewn perygl

Roedd y practis wedi cymryd camau i hyrwyddo ac amddiffyn llesiant a diogelwch plant ac oedolion sy'n agored i niwed neu a allai fod mewn perygl. Mae hyn oherwydd bod polisïau amddiffyn priodol ar waith, a bod hyfforddiant diogelu'n cael ei ddarparu ar gyfer staff perthnasol.

Roedd trefniadau ar waith i staff leisio unrhyw bryderon, a dywedodd staff wrthym eu bod yn teimlo y gallent wneud hyn mewn gwirionedd.

#### Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwnaethom edrych ar y cyfleusterau clinigol yn yr ystafelloedd triniaeth a chanfod eu bod yn cynnwys yr offer perthnasol ar gyfer diogelwch cleifion a'r tîm deintyddol.

Roedd yr ystafelloedd triniaeth wedi'u cynllunio a'u trefnu i gynorthwyo'r tîm i weithio'n effeithlon, ac roeddent yn amlwg yn lân iawn ac mewn cyflwr da. Gwelsom hefyd fod yr amgylchedd wedi cael ei gynllunio a'i drefnu i sicrhau bod offer ymbelydredd yn cael eu defnyddio'n ddiogel.

Gwelsom ddogfennau a oedd yn dangos bod y peiriannau pelydr-X wedi cael eu gwasanaethu'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Canfuom fod staff a oedd yn cymryd rhan yn y gwaith o dynnu radiograffau wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol, yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol

Cyffredinol<sup>3</sup> a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000. Roedd ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd yn cael ei chynnal.

## **Gofal effeithiol**

### **Gofal diogel a chlinigol effeithiol**

Mae cleifion yn elwa ar bractis sy'n ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Gwelsom fod y practis yn cynnal archwiliadau perthnasol, gan gynnwys rheoli heintiau, cadw cofnodion clinigol, mynediad i bobl anabl a radioleg.

### **Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi**

Gwnaethom nodi bod elfennau o archwiliadau CAPRO yn cael eu cynnal trwy Ddeoniaeth Cymru.<sup>4</sup>

### **Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu**

Roedd ffeiliau cleifion yn cael eu storio mewn modd priodol er mwyn sicrhau diogelwch data personol. Roedd copi wrth gefn o'r holl ffeiliau electronig yn cael ei gadw'n rheolaidd ac roedd mynediad at sgriniau cyfrifiadur yn ddiogel ac yn gynnil. Roedd polisi diogelu data ar waith.

### **Cadw cofnodion**

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion deintyddol y ddau ddeintydd a gwnaethom siarad â'r ddau ymarferydd deintyddol ar ddiwrnod ein harolygiad. Ar y cyfan, canfuom fod y gwaith o gadw cofnodion a rhoi gofal i gleifion o ansawdd da iawn. Ni nodwyd unrhyw welliannau yn y maes hwn ac felly mae ansawdd cadw cofnodion clinigol i'w ganmol.

---

<sup>3</sup> [http://www.legislation.gov.uk/uksi/2000/1059/pdfs/uksi\\_20001059\\_en.pdf](http://www.legislation.gov.uk/uksi/2000/1059/pdfs/uksi_20001059_en.pdf)

<sup>4</sup> <https://dental.walesdeanery.org/improving-practice-quality/carro>



## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat a'r safonau proffesiynol perthnasol.*

Mae gan Bractis Deintyddol Bamboo dîm practis wedi'i hen sefydlu gyda throsiant isel o staff. Canfuom fod gan y practis arweinyddiaeth dda a staff sy'n deall eu rolau a'u cyfrifoldebau. Roedd y practis yn cael ei reoli o ddydd i ddydd gan y prif ddeintydd, gyda chymorth oddi wrth reolwr practis effeithlon. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw wedi ymroddi i ddarparu gofal o ansawdd uchel i gleifion.

### **Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd**

Canfuom fod gan y practis arweinyddiaeth dda a staff sy'n deall eu rolau a'u cyfrifoldebau. Roedd y practis yn cael ei reoli o ddydd i ddydd gan y prif ddeintydd, gyda chymorth oddi wrth reolwr practis effeithlon oedd yn gweithio'n rhan amser. Roedd y practis wedi'i drefnu'n dda, ac roedd y gwaith o gadw cofnodion yn cael ei gynnal yn dda yn y rhan fwyaf o feysydd.

Roedd tystiolaeth o brosesau sicrwydd ansawdd effeithiol ac archwiliadau perthnasol yn cael eu cynnal, fel y gwelir yn archwiliad Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 a'r arferion da a ddefnyddir wrth gadw cofnodion clinigol. Roedd polisi sicrhau ansawdd ar waith.

Roedd yr holl staff perthnasol wedi eu cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Roedd tystysgrifau AGIC y deintyddion yn cael eu harddangos yn unol â gofynion Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008.

Roedd systemau ar waith i sicrhau bod gwiriadau cyn cyflogaeth yn cael eu cynnal ar gyfer unrhyw aelodau o staff newydd cyn iddynt ymuno â'r practis, gan gynnwys gwiriadau clirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Roedd gwiriadau clirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd hefyd wedi'u cynnal ar

yr holl ddeintyddion yn unol â gofynion Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008.

## **Staff ac adnoddau**

### **Gweithlu**

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw wedi ymroi'n llwyr i ddarparu gofal o ansawdd uchel i'w cleifion.

Gwelsom dystiolaeth o ddogfennau sefydlu staff ac roedd y rhain wedi'u cynllunio'n dda. Roedd pob aelod o staff wedi cael mynediad at bolisiau a gweithdrefnau. Gwelsom hefyd fod pob aelod o staff wedi cael mynediad at amrediad eang o hyfforddiant, gan fodloni gofynion datblygiad proffesiynol parhaus. Gwelsom dystiolaeth o gyfarfodydd tîm misol ac arfarniadau blynyddol staff. Gwelsom gadarnhad o yswiriant indemniad.

Gwnaethom edrych ar y polisiau a'r gweithdrefnau oedd ar waith a gweld eu bod wedi'u trefnu'n dda iawn, eu bod yn fanwl, a'u bod yn adlewyrchu arferion go iawn.

## 4. Beth sydd nesaf?

Mae'r gwelliannau a'r pryderon uniongyrchol rydym wedi eu nodi yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch wedi'u manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch diogelwch cleifion lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith gan ddweud wrthym am y camau brys mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi derbyn sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

## 5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Fel arfer, rydym yn rhoi rhybudd cyn cynnal arolygiad o bractis deintyddol. Bydd practisau deintyddol yn derbyn hyd at 12 wythnos o rybudd cyn arolygiad. Mae hyn fel y bydd trefniadau yn gallu cael eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod y practis yn rhedeg yn unol â'r arfer, a bod yr arolygiad yn peri cyn lleied o amhariad â phosibl i gleifion.

Mae adborth yn cael ei ddarparu i gynrychiolwyr practisau ar ddiwedd yr arolygiad, a hynny mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) 2008](#) a [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) \(Diwygio\) 2011](#). Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999](#), [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio \(Datguddio Meddygol\) 2000](#), ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis [Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol](#).

Mae'r arolygiadau hyn yn cofnodi cipolwg o'r safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Mae manylion pellach am sut mae AGIC yn arolygu [practisau deintyddol](#) a [gwasanaethau iechyd annibynnol](#) ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod yr arolygiad. Oherwydd yr effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon a oedd angen sylw ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn			

## Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

**Gwasanaeth:** Practis Deintyddol Bamboo

**Dyddiad yr arolygiad:** 6 Gorffennaf 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon ar unwaith ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y maen nhw'n eu cymryd.

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni chyflwynwyd unrhyw ofynion sicrwydd ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (llythrennau bras):**

**Swydd:**

**Dyddiad:**

## Atodiad C – Cynllun gwella

**Gwasanaeth:** Practis Deintyddol Bamboo

**Dyddiad yr arolygiad:** 6 Gorffennaf 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y maen nhw'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<b>Ansawdd profiad y claf</b>				
Mae angen i fwy o wybodaeth hybu iechyd fod ar gael i gleifion yn y mannau aros.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008  Rheoliad 14 (1) (a)	Cafodd taflenni eu prynu gan Sefydliad Iechyd y Geg er mwyn ategu'r wybodaeth a ddarperir ar deledu'r practis.  Cafodd bagiau o bethau da hefyd eu prynu ac rydym yn eu rhoi i'r plant ar ôl iddynt gael eu ceg wedi'i harchwilio.  Cafodd taflenni ynghylch rhoi'r gorau i ysmegu eu harchebu ar ddiwrnod yr arolygiad.	Natalie O'Keefe	Wedi'i gyflawni

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<b>Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol</b>				
<p>Rhaid adolygu'r asesiad risg tân er mwyn mynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn yr adroddiad hwn.</p>	<p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 14 (1) (d)</p>	<p>Cafodd y drws ei ddatgloi ar unwaith a gosodwyd arwydd ar y drws cefn yn syth. Ni chaiff y drws allanol yn y cefn ei gloi yn ystod oriau gwaith bellach wrth i ni aros am ddrws tân newydd i'w ddisodli.</p> <p>Gosodwyd arwydd "Cadwch yn Glir" ar ochr allanol y drws tân er mwyn sicrhau nad oes unrhyw beth yn rhwystro'r drws.</p> <p>Cawsom hefyd teledu cylch cyfyng wedi'i osod ar 7 Awst 2017 fel bod modd i ni fonitro bod y drws yn cael ei gadw'n glir bob amser.</p>	<p>Natalie O'Keefe</p>	<p>Mae disgwyl i'r drws tân gael ei osod erbyn 5 Hydref 2017.</p>
<p>Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod cofnodion damweiniau a chamau gweithredu dilynol yn cael eu cofnodi'n llawn yn y llyfr damweiniau.</p>	<p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 14 (1) (b)</p>	<p>Cynhaliwyd cyfarfod yn y practis ar 7 Gorffennaf 2017 lle'r oedd yr holl staff yno i sicrhau eu bod yn gwybod pa gamau gweithredu a gwybodaeth sydd angen eu cofnodi yn y llyfr damweiniau.</p> <p>Cafodd rhestr wirio ei hychwanegu at</p>	<p>Natalie O'Keefe</p>	<p>Wedi'i gyflawni</p>



Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		flaen y llyfr damweiniau ar 10 Gorffennaf 2017.		
<b>Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth</b>				
Ni welwyd unrhyw broblemau yn y maes hwn yn ystod yr arolygiad hwn.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

### **Cynrychiolydd y gwasanaeth**

Enw (llythrennau bras): **Natalie O'Keefe**

**Swydd: Rheolwr y practis**

**Dyddiad: 6 Medi 2017**